

# Dirprwy Reolwr Tîm
## Y Tîm Sefydlogrwydd a Llwybrau
## G08: £44,428 - £47,420
## Swyddfeydd y Sir, y Fflint
## Parhaol, 37 awr yr wythnos

Mae'r Tîm Sefydlogrwydd a Llwybrau yn rheoli Gofal a Chefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yng Ngwasanaethau Plant. Bydd gan y plant Asesiad Rhan 3 a Chynllun Rhan 6. Fel Dirprwy Reolwr Tîm o fewn y Tîm, byddwch yn gyfrifol am gefnogi cynllunio gofal ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Bydd disgwyl i'r Dirprwy Reolwr Tîm gysylltu a gweithio'n agos gydag asiantaethau statudol eraill. Byddwch yn ymuno â thîm sefydledig sy'n gweithredu o fewn cylch gwaith ein Gwasanaethau Plant, a byddwch yn gyfrifol am sicrhau y ffurfir polisïau a gweithdrefnau, ac y cydymffurfir â nhw.

Mae'n rhaid i chi fod yn ymarferydd cryf a brwdfrydig, a bod â'r weledigaeth a'r cymhelliant i ddarparu amrywiaeth o ofal cymdeithasol o ansawdd uchel, sy'n gost effeithiol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, i blant a'u teuluoedd, gan roi sylw penodol i risgiau sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc.

Gan weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, mae'r swydd yn gofyn am ymroddiad, hyblygrwydd a dealltwriaeth drylwyr o'r holl safonau perthnasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014). Mae'r swydd yn gofyn am y gallu i feithrin cydberthnasau effeithiol gyda thimau gwasanaethau cymdeithasol a chreu partneriaethau cydweithredol cadarn gydag asiantaethau eraill.

Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol.
Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru ac mae'r swydd yn amodol ar wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
Mae trwydded yrru'n hanfodol, oni bai fod anabledd yn atal hynny.
I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â:

Suzanne Johnstone (Rheolwr Gwasanaeth) suzannejohnston@flintshire.gov.uk neu Kelly Dean (Rheolwr Tîm) kelly.dean@flintshire.gov.uk

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil pwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r nifer o weithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi unrhyw aelodau staff newydd neu gyfredol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council